# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 10 Hydref Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Cymuned y Betws yn Festri Capel Newydd, y Betws ar ddydd Mercher y 10fed o Hydref 2007 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Carwyn James (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Richard Howell, Anne Sizmur, Loreen Lewis, Menna Roberts, June Gunter, Audrey Jones, Delyth Richards, Annette Price, Betsan Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwr Keith Rees.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 12fed O FEDI 2007.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac eiliodd y Cynghorwr June Gunter fod cofnodion cyfarfod y 12fed o Fedi 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda'r Cyfreithiwr o Lys Cennen, sydd wedi cadarnhau eu bod nhw'n hapus i'r Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi ar ran y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y Cynghorwyr eu bod nhw'n hapus i'r Cadeirydd a'r Clerc i lofnodi am y tir ar ran y Cyngor Cymuned. Hefyd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gydag Un Llais Cymru ynglyn â'r mater hyn ac nid oes ganddynt unrhyw wrtheynebiad.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud apwyntiad i weld y Cyfreithiwr.

2.2 Adeiladu 16 Melin Wynt ar Fynydd y Betws.
Darllenodd y Clerc ymateb derbyniodd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cadarnhau bod y cais cynllunio hwn o dan ystyriaeth ar hyn a bryd.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.3 Ysgol Gyfun Dyffryn Aman.
Roedd y Cynghorwr Annette Price yn dal i bryderu oherwydd bod plant ifainc o Ysgol Gyfun Dyffryn Aman yn crwydro yng nganol dref Rhydaman yn ystod y dydd. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi'n codi'r mater hwn gyda Chadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Dyffryn Aman ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cynghorwyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.4 Ty Haf/Pont ym Mharc Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi danfon cais at CADW i weld os gall gorchymyn cadwraeth gael ei osod ar y Ty Haf/Pont ym Mharc Betws. Nid yw hi wedi derbyn ymateb hyd yn hyn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.5 Gwaredu Dogfennau Cyngor Cymuned Y Betws.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi gwaredu'r dogfennau canlynol:-
Cyfriflenni Banc 1970 – 2000
Anfonebau 1997 – 2001
Copïau Penderfyniadau Cynllunio 1987 - 2001
Cyfrifon Archwiliedig 1997 – 2001
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.6 Llwybr Troed 68/11.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James fod cynrychiolydd o Dwr Cymru wedi bod i ymweld â llwybr troed 68/11 ynglyn â'r clawr ar y twll archwilio sy'n uwch na lefel y llwybr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Gwobrau Personoliaeth Chwaraeon Sir Gaerfyrddin.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os hoffent enwebu person/tîm am Wobrau Personoliaeth Chwaraeon Sir Gaerfyrddin. Awgrymodd y Cynghorwr June Gunter ac eiliodd y Cynghorwr Betsan Jones fod y Cyngor Cymuned yn enwi Phil Harry o glwb Pêl-droed y Betws. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod y Cynghorwyr June Gunter a Betsan Jones yn cwblhau'r ffurflen ac yn ei ddychwelyd i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Richard Howell fod copïau o'r ffurflen enwebiad yn cael ei ddanfon ymlaen at Glwb Rygbi Betws a Chlwb Pêl-droed y Betws fel y gallant gyflwyno eui henwebiadau os dymunent wneud hynny. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod y Clerc yn danfon copïau o'r ffurflen enwebiad ymlaen at Glwb Rygbi'r Betws a Chlwb Pêl-droed y Betws.

3.2 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1. Llywodraeth Cynulliad Cymru – Awdurdod Tân ac Achub – Dangosydd Perfformiad.
2. Newyddion y Gymuned & Gwirfoddolwyr.
3. Grwp Lleol o Gynghorau Aman - Agenda & Cofnodion - rhoddwyd i'r Cynghorwyr Carwyn James ac Annette Price.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E/17351 - Dymchweliad o garej wreiddiol a phorth ac ail adeiladu garej a phorth newydd ger 31a Heol Maescware, Betws (25/2007-08).

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd cynllunio i'r ceisiadau canlynol:-
E/17016 - Ail-cyflwyniad o gais cynllunio i drawsnewid garej mewn i ystafell astudio ger 16 Golwg y Mynydd, Betws (23/2007-08).
E/16909 - Llwybr i gael ei ddileu o'r ochr ar dir ger 74 Heol Maescware, Betws (22/2007-08).
E/16847 - Ty gwydr i'r blaen ger 8 Treforis, Betws (20/2007-08).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
1. Tumble Forge (Prosiect Parc Betws) £2,620.25
2. Cyngor Sir Caerfyrddin (Prosiect Parc Betws) £11,750.00
2. Roger Lewis (bylbiau blodau) £15.96
CYFANSWM £14386.21

PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

5.2 Incwm a dderbyniwyd.
1. Prosiect Parc Betws £275.26

NODWYD yr uchod gan y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Jamie Lang y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod PC Kevin Jones yn ymddiheuro ond nid oedd e'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod mis hwn.

Adroddodd y Cynghorwr Audrey Jones fod hi wedi derbyn nifer o gwynion wrth drigolion fod cerbydau'r Heddlu yn teithio'n gyflym ar hyd Heol Pentwyn. Roedd PC Lang yn pryderu am y cerbydau hyn a gofynnodd PC Lang os gall y Cynghorwyr anfon manylion am gerbydau'r Heddlu sy'n teithio yn rhy chwim ymlaen ato.

Gofynnodd y Cynghorwr Arnallt James i PC Lang os yw'r Heddlu yn gallu delio gyda'r mater o ganghennau yn gor-dyfu ar Heol Maescware. Hefyd dywedodd y Cynghorwr Arnallt James fod yna focs ceffylau ar yr heol tu allan i'r ty hwn a'i fod yn achosi rhwystr. Cadarnhaodd PC Lang y byddai yn ymweld â'r cyfeiriad hwn yfory.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i PC Jamie Lang am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans yn bresennol yn y cyfarfod misol ac adroddodd ar y mater canlynol:-
Mae ef wedi gofyn am ymweldiad safle ar Waith Glo'r Betws ond nid yw wedi derbyn ymateb gan y Pennaeth Cynllunio hyd yn hyn. Cadarnhaodd ei fod wedi cyfarfod gyda'r Datblygydd Tai ac mae e wedi diogelu arian am Ysgol y Betws.

NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i'r Cynghorwr Sir John D Evans am ei adroddiad.

8. CYMHORTHFA'R CYNGOR CYMUNED.
Adroddodd y Cynghorwr Anne Sizmur nad oes unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol yng nghymhorthfa'r Cyngor Cymuned am gyfnod hir. Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os yw'r Cynghorwyr am barhau gyda Chymhorthfa'r Cyngor Cymuned. Awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards fod y Cyngor Cymuned yn parhau gyda'r gymhorthfa'r bob dau fis ac fe awgrymodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod amser y cymhorthfa'n newid i 6.45pm. Cytunodd y Cynghorwyr.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod Cymhorthfa'r Cyngor Cymuned yn parhau ar sail bob tri mis ac yn dechrau am 6.45pm.

9. ADRODDIADAU.
9.1 Gardd Goffa Synhwyraidd Parcy Betws.
Rhoddodd y Cynghorwr Annette Price yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr ynglyn â'r ail ran o brosiect Gardd Goffa Synhwyraidd Parc y Betws sydd ar hyn o bryd mewn cyfnod o ymgynghoriad.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

10. UNRHYW FATER ARALL.
10.1 Parc Betws.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu oherwydd bod dail yn cwympo o'r coed ym Mharc y Betws, ac awgrymodd fod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a all y dail gael eui cglirio o'r llwybrau troed.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr bod y Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin.

10.2 Cyfarfod Cyhoeddus – Tachwedd 2006.
Gofynnodd y Cynghorwr Menna Roberts i'r Cynghorwyr os all roi'i ffeil am y Cyfarfod

Cyhoeddus ‘nôl ym mis Tachwedd 2006 i’r Clerc. Cytunodyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Menna Roberts yn rhoi ei ffeil o’r Cyfarfod Cyhoeddus i’r Clerc.

10.3 Cyflenwi yn Absenoldeb Y Clerc.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi’n mynd i gael llawdriniaeth o fewn yr wythnosau nesaf ac ni fyddai’n gallu bod yn bresennol yng Nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned. Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi siarad gydag Un Llais Cymru sydd wedi awgrymu bod un o’r Cynghorwyr yn cymryd y cofnodion tra bod y Clerc ddim ar gael. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi’n fodlon cymryd cofnodion y cyfarfodydd ac awgrymodd y Cynghorwr Delyth Richards ei bod hi’n fodlon cyfieithu’r cofnodion o’r cyfarfodydd. Dywedodd y Cynghorwr Carwyn James y byddai e’n gweinyddu’r cyfarfodydd gyda chymorthhelp y Cynghorwyr. Cytunodyd y Cynghorwyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

10.3 Torch Coffa.
Cytunodd y Cynghorwyr i brynu torch am yr apêl pabi.

Gofynnodd y Cynghorwr Annette Price a ddylai torch goffa gael ei gosod ar y garreg ym Mharc y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cyngor Cymuned hefyd yn prynu torch goffa i’w gosod ym Mharc y Betws.
PENDERFYNODD y Cynghorwyr fod y Cyngor Cymuned yn prynu dwy dorch goffa.

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.35 yr hwyr.